**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO111/EJ/BD

8 Tachwedd 2016

Annwyl Mark

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref ynghylch penodi Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru.

Croesawaf eich awgrym am drefnu i un o bwyllgorau'r Cynulliad gynnal gwrandawiad cyn-benodiad, a chredaf mai mater i'r Pwyllgor Cyllid fyddai'r cynnal gwrandawiad.

Er fy mod yn cefnogi'r syniad hwn yn llwyr, yr wyf yn ymwybodol ei bod yn bwysig ystyried rôl y Pwyllgor os cynhelir gwrandawiad o'r fath. Er bod y Cynulliad eisoes yn cynnal gwrandawiadau cyn-benodiad rhai o benodiadau Cynulliad, fel y Comisiynydd Safonau a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, credaf mai hwn fyddai'r gwrandawiad cyntaf cyn-benodiad penodiad gan Weinidog. Gan hynny, bydd angen inni feddwl yn ofalus am y modd y byddwch yn ystyried canlyniad y gwrandawiad cyn ichi benderfynu'n derfynol ar y penodiad. Er fy mod yn sylweddoli mai mater i'r weithrediaeth yw penderfynu ar y penodiad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu sicrwydd ynglŷn â sut bydd trafodion y pwyllgor yn dylanwadu ar y broses penodi .

Yr wyf yn ymwybodol eich bod, yn y gorffennol, wedi galw am roi rôl fwy blaenllaw i'r Cynulliad yn y broses o graffu ar benodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ac yr wyf innau hefyd o blaid hyn - mae'n bwysig i'r Cynulliad graffu ar benodiadau cyhoeddus allweddol a byddem yn falch o weld Gweinidogion eraill y Llywodraeth yn dilyn yr un drefn. Drwy roi rôl fwy ffurfiol i'r Cynulliad yn y broses o wneud



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

penodiadau cyhoeddus, credaf y byddai'r Cynulliad yn cydymffurfio â'r trefniadau presennol yn San Steffan, a byddai'n helpu i fonitro penodiadau cyhoeddus a sicrhau bod safonau ac atebolrwydd yn cael eu cynnal.  Yr wyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn a byddaf yn anfon yr ohebiaeth hon at y ddau bwyllgor.  Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Elin Jones AC
Llywydd